# Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

## Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19
## FI0118

**Lleoliad:** Ffordd Dewi, Oakenholt
**Dyddiad y Digwyddiad:** 5 – 6 Ionawr 2025

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

## Taflen Rheoli Dogfen

| | |
|---|---|
| **Awdur y Ddogfen** | Jordan Williams MSc BSc (Hons) GradIEMA |
| **Gwiriwyd gan** | Victoria Venn MSc BSc (Hons) C.WEM CIWEM |
| **Cymeradwywyd gan** | Paul Reeves (Rheolwr Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol) |

### Hanes Adolygu

| Dyddiad | Rhif Fersiwn | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|
| 25/04/2025 | Adroddiad Drafft | Amherthnasol |
| 01/09/2025 | Fersiwn Terfynol | Amherthnasol |
| 15/04/2026 | Fersiwn Terfynol Tudalen We | Mân gywiro gramadeg. |
| | | |
| | | |
| | | |

© 2025-26 Cyngor Sir y Fflint / Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Cedwir Pob Hawl. Mae hawlfraint y ddogfen hon ac unrhyw ran ohoni'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint, Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NF (y 'Perchennog') ac ni ddylid ei defnyddio, ei gwerthu, ei throsglwyddo, ei chopïo na'i hatgynhyrchu'n llwyr neu'n rhannol ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng i neb, oni wneir hynny'n unol â thelerau cytundeb y Perchennog neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig y Perchennog o flaen llaw.

**Cynnwys**

Crynodeb Gweithredol

1.0 Rhagarweiniad

2.0 Braslun o Ardal yr Astudiaeth

3.0 Crynodeb o'r Digwyddiad a'r Effaith

4.0 Disgrifiadau o'r Llifogydd a'r Prosesau Gorlifo

5.0 Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol

6.0 Casgliadau

7.0 Argymhellion

**Atodiadau**

Atodiad A – Cynlluniau Carthffosydd Dŵr Cymru

Atodiad B – Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio' CNC

Atodiad C – Ardaloedd Lle Adroddwyd am Lifogydd

Atodiad D – Cofnod ffotograffig

**Ffigurau**

Ffigur 1 – Ardal yr astudiaeth

Ffigur 2 – Dalgylch cwrs dŵr Croes Onn yn fras

Ffigur 3 – Model Digidol o Dirwedd Oakenholt

Ffigur 4 – Rhannau agored o gwrs dŵr Croes Onn a rhannau sydd dan geuffosydd

Ffigur 5 – Map Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol CNC

Ffigur 6 – Glawiad Dyddiol Cronnus 4 – 5 Ionawr 2025 yn ôl y Swyddfa Dywydd

Ffigur 7 – Cofnodion Medrydd Glaw CNC yn Llaneurgain yn y diwrnodau cyn y 5ed

Ffigur 8 – Glawiad bob awr rhwng 5 a 6 Ionawr 2025

Ffigur 9 – Data Medrydd Llanw Lerpwl

**Tablau**

Tabl 1 – Argymhellion

Tabl 2 – Crynodeb o'r cyswllt a wnaed â'r gymuned yn Ffordd Dewi, Oakenholt

Tabl 3 – Crynodeb o'r llifogydd yn Ffordd Dewi, Oakenholt rhwng 5 a 6 Ionawr 2025

Tabl 4 – Camau pellach a gymerwyd

Tabl 5 – Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol

Tabl 6 – Argymhellion

# Crynodeb Gweithredol

Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn bodloni gofynion Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Dan Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae’n rhaid i’r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (Cyngor Sir y Fflint), o gael gwybod am lifogydd yn ei ardal, ac i’r graddau y mae’n barnu hynny’n angenrheidiol neu’n briodol, gynnal ymchwiliad, llunio Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd a’i gyhoeddi.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol am reoli’r perygl o lifogydd lleol sy’n deillio o ddŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin fel nentydd a ffosydd (gan gynnwys llynnoedd a phyllau).

Mae Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn datgan:

“(1) Wrth ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, mae’n rhaid i awdurdod llifogydd lleol arweiniol, i’r graddau a bennir yn briodol ganddo, ymchwilio i ganfod –

*(a) Pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol, ac*
*(b) A yw pob un o’r awdurdodau rheoli risg hynny wedi arfer y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd neu’n bwriadu gwneud”*

Yr awdurdodau rheoli risg llifogydd yn Sir y Fflint yw:

- Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
- Yr Awdurdod Priffyrdd
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dŵr Cymru

Ddechrau mis Ionawr 2025, daeth system dywydd fawr i’r Deyrnas Unedig gan greu eira a glaw trwm mewn llawer o ardaloedd. Yn ôl data Cyfoeth Naturiol Cymru rhwng 5 a 6 Ionawr 2025, syrthiodd tua 47.2mm o law dros 32 awr yn Oakenholt.

Mae’r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wedi cynnal ymchwiliad manwl, ymgysylltu â’r gymuned a chyfathrebu â budd-ddeiliaid perthnasol i gael dealltwriaeth o’r hyn a ddigwyddodd yn ystod llifogydd mis Ionawr 2025. Mae’r Adroddiad hwn yn manylu ynghylch y llifogydd hynny.

Adroddwyd fod dŵr wedi treiddio i mewn i wyth o dai a bod un tŷ arall wedi cael llifogydd y tu allan. Deilliodd y llifogydd yn bennaf o ddŵr afon a dŵr wyneb o’r cwrs dŵr cyffredin o’r enw nant Croes Onn. Yr Awdurdod Rheoli Risg Llifogydd sy’n berthnasol yn yr achos hwn yw’r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, Cyngor Sir y Fflint, sydd o’r farn bod y llifogydd yn deillio’n bennaf o ‘gwrs dŵr cyffredin’.

Nodir yn Nhabl 1 y 9 o argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn (gweler isod neu ewch i ddiwedd yr adroddiad).

**Tabl 1 – Argymhellion**

| Cyf | Budd-ddeiliad | Camau a argymhellir | Cynnydd ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|
| 01 | Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Canfod pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ceuffosydd 1-4 yn Ffigur 4 a hysbysu'r holl fudd-ddeiliaid fel y gellir rhoi gwybod am broblemau yn y dyfodol a'u datrys. | Ceuffos 1: Cyngor Sir y Fflint (yr Awdurdod Priffyrdd)<br>Ceuffos 2: Cartrefi Anwyl<br>Ceuffos 3: Cartrefi Anwyl<br>Ceuffos 4: Cartrefi Anwyl<br><br>I'w hysbysu'n ffurfiol pan gyhoeddir yr adroddiad |
| 02 | Perchnogion Glannau'r Afon | Adolygu dulliau cynnal a chadw'r systemau cwrs dŵr cyffredin ar y safle (*gan gynnwys cyrsiau dŵr agored a rhai dan geuffosydd*).<br>***https://www.naturalresources.wales/flooding/owning-a-watercourse?lang=cy*** | Parhaus |
| 03 | Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cysylltu â pherchnogion tir i lawr y nant er mwyn tynnu llaid o'r cwrs dŵr agored yn is i lawr o ble mae'r dŵr yn arllwys o 'Geuffos 1'. | Cwblhawyd ar 05.03.25 [Gweler y cofnod ffotograffig] |
| 04 | Cartrefi Anwyl (Perchennog Glannau'r Afon) | Dal i gydweithio ynghylch draenio'r tir a gosod systemau draenio cynaliadwy yn y dyfodol wrth ddatblygu unrhyw ystâd ac ymgysylltu'n gynnar cyn cyflwyno unrhyw geisiadau cynllunio newydd. | Parhaus |
| 05 | Cartrefi Anwyl a'r Cwmni Rheoli (Perchennog Glannau'r Afon) | Dal i adolygu'r ffiniau a'r asedau dan reolaeth, cyfathrebu'n glir â phreswylwyr a'r awdurdodau perthnasol a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â hwy lle bo'n briodol. | Parhaus |
| 06 | Yr Awdurdod Priffyrdd (Cyngor Sir y Fflint) | Adolygu cyflwr 'Ceuffos 1' yn Ffigur 4 a'i chynnal a chadw'n unol â hynny | Cwblhawyd (wedi tynnu llaid o'r geuffos) |
| 07 | Preswylwyr | Ystyried ffurfio Grŵp Gweithredu ar Lifogydd er mwyn helpu i baratoi ar gyfer llifogydd yn y dyfodol a'u rheoli. | Amherthnasol |
| 08 | Preswylwyr | Ystyried rhoi dulliau amddiffyn ar waith mewn tai unigol (hynny yw, gorchuddion brics aer, gatiau/drysau rhag llifogydd). | https://thefloodhub.co.uk/pfr/ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 09 | Perchnogion Glannau'r Afon / y Gymuned Leol | Bod yn wyliadwrus rhag sbwriel a thipio anghyfreithlon yn y cwrs dŵr. | Amherthnasol |

# 1.0 Rhagarweiniad

**1.1** Ers cyflwyno Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol dynodedig.

**1.2** Mae Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn datgan:

"(1) Wrth ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, mae'n rhaid i awdurdod llifogydd lleol arweiniol, i'r graddau a bennir yn briodol ganddo, ymchwilio i ganfod –

*(a) Pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol, ac*
*(b) A yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi arfer y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd neu'n bwriadu gwneud"*

**1.3** Pan mae Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn cynnal ymchwiliad, mae'n rhaid iddo gyhoeddi adroddiad a hysbysu'r awdurdodau rheoli risg perthnasol.

**1.4** Diben yr Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd hwn dan Adran 19 yw canfod y prosesau gorlifo a achosodd lifogydd mewn tai ar Ffordd Dewi, Oakenholt rhwng 5 a 6 Ionawr 2025. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gorolwg ar y prosesau gorlifo, yn nodi'r Awdurdodau Rheoli Risg a budd-ddeiliaid sy'n berthnasol ac yn rhoi rhestr o argymhellion.

**1.5** Mae'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn a'r sylwadau ac argymhellion a wneir yn seiliedig ar asesu'r wybodaeth sydd ar gael.

**1.6** Mae'r wybodaeth, y safbwyntiau a'r casgliadau'n seiliedig, yn rhannol, ar y wybodaeth y mae eraill wedi ei darparu i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wedi derbyn gyda phob ewyllys da fod y wybodaeth honno'n gywir.

# 2.0 Braslun o Ardal yr Astudiaeth

### Lleoliad

**2.1** Mae'r ardal lle cafwyd adroddiadau o lifogydd pan oedd hi'n bwrw glaw rhwng 5 a 6 Ionawr yn gyfyngedig i'r tai ar hyd y ffordd o'r enw 'Ffordd Dewi'. Mae Ffigur 1 yn dangos ardal yr astudiaeth yn fras.



**Ffigur 1 – Ardal yr astudiaeth**

### Daeareg

**2.2** Yn ôl dangosydd daeareg ar-lein Arolwg Daearegol Prydain[1], mae'r rhan hon o Oakenholt yn gorwedd ar ben dyddodion arwynebol o glog-glai Defensaidd. Mae Arolwg Daearegol Prydain yn galw clog-glai Defensaidd yn ddiamicton, sy'n golygu fod ynddo ronynnau anhrefnus o faint amrywiol mewn matrics o dywod neu fwd. O dan y dyddodyn hwnnw wedyn, mae ffurfiant o dywodfaen.

**2.3** Ar y wyneb, mae ansawdd y pridd yn 'gleiog a phriddgleiog' yn ôl dangosydd *Soilscapes* Canolfan Amgylcheddol Cranfield[2]. Mae gweadedd felly'n atal dŵr rhag draenio i'r ddaear islaw gan gynyddu a chyflymu llif dŵr ffo ar y wyneb. Mae'n bur debyg y cywasgwyd y pridd wrth adeiladu datblygiadau yn yr ardal yn ddiweddar a'i fod yn dal yn y cyflwr hwnnw, sydd eto'n atal dŵr rhag cael ei storio yn y pridd a threiddio drwyddo.


### Sefyllfa Hydrolegol

**2.4** Mae cwrs dŵr a elwir mewn cynlluniau'n nant Croes Onn yn bresennol yn ardal yr astudiaeth ac mae'r dalgylch i fyny'r nant yn tua 1.39 cilometr sgwâr fel y gwelir yn Ffigur 2. Mae Ffigur 3 yn dangos topograffeg ardal yr astudiaeth ar sail data LiDAR.


**2.5** Mae'r dalgylch yn dir gwledig yn bennaf a ddefnyddir ar gyfer amaeth, a dim ond yn ddiweddar y datblygwyd stad o dai arno. Mae dŵr yn llifo o'r cwrs dŵr tua'r gogledd ac yn arllwys i aber Dyfrdwy drwy lifddor.

---

[1] https://geologyviewer.bgs.ac.uk/?_ga=2.130828299.522985669.1738930329-182811052.1738930329
[2] https://www.landis.org.uk/soilscapes/





**Ffigur 2 – Dalgylch cwrs dŵr Croes Onn yn fras.**




**Ffigur 3 – Model Digidol o Dirwedd Oakenholt**

2.6 Mae rhannau o'r cwrs dŵr agored yn ardal yr astudiaeth wedi'u rhoi dan geuffosydd fel rhan o'r datblygiad a cheir amlinelliad bras o'u hynt isod. Mae ceuffos yn strwythur, peipen neu flwch fel arfer, sy'n galluogi dŵr i lifo o dan ryw rwystr fel ffordd neu reilffordd (gweler y lluniau yn Atodiad D sy'n dangos mwy o fanylion).




**Ffigur 4 – Rhannau agored o gwrs dŵr Croes Onn a rhannau sydd dan geuffosydd**

### Draenio

2.7 Mae mapiau Dŵr Cymru yn Atodiad A yn dangos fod yno ddwy o brif garthfosydd sy'n casglu dŵr budr a dŵr wyneb ac yn llifo o dan y briffordd tua'r gogledd ddwyrain. Yn ôl mapiau Dŵr Cymru, mae'r garthffos dŵr budr yn cysylltu â charthffos gyfun sy'n pwmpio popeth tua'r gogledd orllewin ac mae'r garthffos dŵr wyneb yn arllwys i aber Dyfrdwy.


### Mapiau Perygl Llifogydd CNC

2.8 Yn ôl 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio' Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)[3] yn Atodiad B, mae rhan o ardal yr astudiaeth yn gorwedd mewn Parthau Llifogydd 3 a 2 ar gyfer dŵr wyneb a mân gyrsiau dŵr. Mae ardaloedd mewn Parth Llifogydd 2 yn rhai â thebygolrwydd rhwng 0.1% ac 1% (rhwng 1 mewn 1,000 ac 1 mewn 100) o lifogydd o ddŵr wyneb a/neu fân gyrsiau dŵr bob blwyddyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd. Mae ardaloedd mewn Parth Llifogydd 3 yn rhai â thebygolrwydd o 1% (1 mewn 100) o lifogydd, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd. Mae map CNC yn dangos fod rhai o'r tai ar y safle'n gorwedd yn y parthau hyn.

[3] https://map-llifogydd-ar-gyfer-cynllunio.cyfoethnaturiol.cymru/

**2.9** Mae'r perygl llifogydd a ddynodir ar fap CNC, 'Perygl Llifogydd o Ddŵr Wyneb a Mân Gyrsiau Dŵr' (Ffigur 5) yn deillio o astudiaeth fodelu a fu'n mesur elfennau fel glawiad a data LiDAR. Mae'r map yn dangos ardaloedd lle gallai dŵr wyneb lifo neu gronni pan mae'n glawio'n drwm. Nid yw map CNC yn cynnwys elfennau fel systemau draenio, ceuffosydd, rhwystrau a newidiadau diweddar mewn lefelau tir oherwydd datblygiadau.

**2.10** Yn ôl map CNC, unwaith y byddai'r llifogydd yn mynd yn fwy na'r hyn y gall y sianeli ei ddal, byddent yn dal i lifo tua'r gogledd ar hyd ymyl gorllewinol y sianel a thros Ffordd Dewi.




**Ffigur 5 – Map Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol CNC**

**Dŵr daear**

**2.11** Ym mis Rhagfyr 2024, adroddodd Canolfan Ecoleg a Hydroleg y Deyrnas Unedig[4] fod lefelau dŵr daear yn ôl medrydd 'Llanfair D.C' yng ngogledd Cymru'n 'arbennig o uchel' o gymharu â lefelau hanesyddol. Erbyn diwedd mis Ionawr 2025, roedd yr un medrydd yn dangos fod lefelau'r dŵr yn 'eithriadol o uchel' a bod y lefel uchaf erioed wedi'i gofnodi dros y ffin yn Swydd Amwythig. Ar sail y ddealltwriaeth honno o gyflwr dŵr daear yn gyffredinol yng ngogledd Cymru, mae'n bur debyg bod y dŵr daear yn Oakenholt yn uwch nag arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn ac y gallai hynny fod wedi creu mwy o ddŵr ffo nag arfer yn ystod y glaw mawr.

[4] https://nrfa.ceh.ac.uk/monthly-hydrological-summary-uk

### Hanes blaenorol o lifogydd

**2.12** Cyn adeiladu'r datblygiad o dai'n ddiweddar, soniodd preswylydd lleol eu bod wedi gweld llifogydd ar y caeau ar sawl achlysur. Mae'n hysbys hefyd y bu llifogydd ar brydiau ar yr A548 (Ffordd Caer) gerllaw 'Ceuffos 1' a'r ffos gyfagos a nodir yn Ffigur 4.

**2.13** Wrth ymgysylltu â'r gymuned, soniodd rhai preswylwyr mai'r unig dro y cafwyd llifogydd y tu allan i dai yn y gorffennol oedd Storm Darragh rhwng 5 a 9 Rhagfyr 2024. Yn ystod y storm honno, dywedodd y preswylwyr fod llifogydd wedi deillio o'r rhan agored o'r cwrs dŵr yn llifo'n uwch na mewndwll 'Ceuffos 2' yn Ffigur 4. Ni hysbyswyd yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o'r digwyddiad ar y pryd. Wrth ymgysylltu â'r gymuned, soniodd un preswylydd y rhoddwyd gwybod i gwmni rheoli'r datblygiad am y digwyddiad yn ddiweddarach.


**2.14** Nid oes gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol unrhyw gofnod o lifogydd a gafwyd y tu mewn i adeiladau yn ardal yr astudiaeth yn y gorffennol. Ni hysbysodd y preswylwyr yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o unrhyw lifogydd y tu mewn i adeiladau yn y gorffennol.

**2.15** Yn ôl medrydd glaw CNC yn Llaneurgain, syrthiodd tua 29.4mm o law mewn tridiau yn ystod Storm Darragh.

# 3.0 Crynodeb o’r Digwyddiad a’r Effaith

### Cyd-destun Cenedlaethol

**3.1** Ar 5 Ionawr 2025, ffurfiodd system dywydd gwasgedd isel a’i chanol o gwmpas de orllewin y Deyrnas Unedig a bu eira a glaw trwm mewn llawer o ardaloedd. Fel y gwelir yn Ffigur 6, cafodd y rhan helaeth o’r Deyrnas Unedig fwy na 30mm o law ac yng ngogledd Cymru, cafwyd rhwng 20mm a 50mm mewn rhai ardaloedd. Yng ngogledd ddwyrain y Deyrnas Unedig, roedd y glawiad yn hafal i fwy na 90% o’r glaw a ddisgwylid ym mis Ionawr a chafodd rhai ardaloedd eu diwrnodau gwlypaf ym mis Ionawr ers pan ddechreuwyd cadw cofnodion. Creodd y system dywydd honno broblemau helaeth â llifogydd ledled y Deyrnas Unedig ac yn enwedig felly yn Swydd Gaerlŷr a Swydd Lincoln. Yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd, cafwyd llifogydd mewn tua 800 o dai oherwydd y tywydd.




**Ffigur 6 – Glawiad Dyddiol Cronnus 4 – 5 Ionawr 2025 yn ôl y Swyddfa Dywydd[5]**

### Cyd-destun Rhanbarthol


**3.2** Roedd y system dywydd a gofnodwyd yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau eraill rhwng diwedd mis Rhagfyr 2024 a dechrau mis Ionawr 2025. Yn ôl medrydd glaw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn Llaneurgain, disgynnodd tua 60.8mm o law ac eira’n ysbeidiol rhwng 17 Rhagfyr a 3 Ionawr, yn y diwrnodau cyn 5 Ionawr. Mae’n bur debyg y byddai cymaint â hynny o eira a glaw ynghyd â chyfradd anwedd-drydarthu isel ar yr adeg honno o’r flwyddyn yn golygu y byddai’r priddoedd y sonnir amdanynt yn Adran 2.3 eisoes yn ddirlawn o ddŵr cyn y glaw mawr ar 5 a 6 Ionawr.

**3.3** Cafwyd cofnodion o’r glaw ac eira o fedrydd glaw CNC yn Llaneurgain[6].


---

[5] https://www.metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/weather/learn-about/uk-past-events/interesting/2025/2025_01_wind_rain_snow.pdf
[6] https://rivers-and-seas.naturalresources.wales/Station/1013?parameterType=2&lang=cy

**3.4** Dengys Ffigur 7 y glaw ac eira a ddisgynnodd yn y 5 o ddiwrnodau cyn 5 Ionawr yn ôl medrydd glaw Llaneurgain.




**Ffigur 7 – Cofnodion Medrydd Glaw CNC yn Llaneurgain yn y diwrnodau cyn y 5ed**





**Ffigur 8 – Glawiad bob awr rhwng 5 a 6 Ionawr 2025**

**3.5** Dengys Ffigur 8 y syrthiodd tua 47.2mm o law mewn 32 awr yn ystod y llifogydd, gyda 3mm yn syrthio â'r glaw yn ei anterth rhwng 17:00 a 18:00 ar 5 Ionawr.

**3.6** Ar sail dadansoddiad o'r Llawlyfr Amcangyfrif Llifogydd, awgrymir bod glawiad fel hynny'n hafal i Debygolrwydd Gormodiant Blynyddol o tua 25%. Mae hynny'n golygu bod y glawiad a gafwyd â thebygolrwydd o tua 25% o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn.

**3.7** Cafwyd data'r llanw o Fedrydd Llanw Lerpwl[7] (yr un agosaf at Oakenholt). Roedd y glaw yn ystod y llifogydd hyn yn ei anterth rhwng 5pm a 6pm ar 5 Ionawr ac roedd hi'n benllanw ychydig cyn 4pm fel y gwelir yn Ffigur 9. Efallai bod lefelau'r cwrs dŵr hwn yn codi ar adeg penllanw, gan y gallai lefelau uchel o dŵr yn Afon Dyfrdwy fod yn atal y llif.




**Ffigur 9 – Data Medrydd Llanw Lerpwl**

**Cyd-destun Lleol**

**3.8** Bu tîm Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol Cyngor Sir y Fflint yn ymgysylltu â'r gymuned yn Ffordd Dewi, Oakenholt ar 6 Ionawr 2025. Diben hynny oedd casglu gwybodaeth am y tai a gafodd lifogydd a phrofiadau pobl o hynny. Yn ogystal â siarad â phreswylwyr, anfonwyd holiadur drwy'r post i geisio barn pobl eto. Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o nifer yr ymatebion a gafwyd.

**Tabl 2 – Crynodeb o'r cyswllt a wnaed â'r gymuned yn Ffordd Dewi, Oakenholt**

| Lleoliad | Ymatebion a gafwyd ar lafar (tai) | Nifer yr ymatebion drwy'r post / e-bost |
|---|---|---|
| Ffordd Dewi | 2 | 3 |

**3.9** Yn ogystal â'r digwyddiad i ymgysylltu â'r gymuned, ymgynghorwyd â nifer o fudd-ddeiliaid i gael unrhyw wybodaeth am lifogydd yn Ffordd Dewi. Manylir ynghylch y cyfathrebu a wnaed â budd-ddeiliaid perthnasol yn y gofrestr cyfathrebu yn Adran 5.

**3.10** Mae Tabl 3 yn rhoi crynodeb o'r mannau ble cafwyd llifogydd a'r effaith a gafodd hynny, ar sail ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid.

Tabl 3 – Crynodeb o'r llifogydd yn Ffordd Dewi, Oakenholt rhwng 5 a 6 Ionawr

[7] https://rivers-and-seas.naturalresources.wales/Station/70139?

| Lleoliad | Llifogydd Mewnol | Effaith |
| --- | --- | --- |
| Ffordd Dewi | 3 | Cadarnhaodd perchnogion 3 o dai i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol eu bod wedi cael llifogydd y tu mewn i'w tai. |
| Ffordd Dewi | 5 | Casglwyd gwybodaeth fod 5 o dai eraill wedi cael llifogydd y tu mewn ac 1 arall wedi cael llifogydd y tu allan yn unig. |
| **Cyfanswm Llifogydd Mewnol** | **8*** | **Nifer yr achosion o lifogydd mewnol ar sail ymgysylltu â'r ymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid. Gallai llifogydd fod wedi digwydd mewn tai eraill hefyd heb i neb roi gwybod i Gyngor Sir y Fflint.** |

*Cadarnhaodd tri o berchnogion tai yn uniongyrchol i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol eu bod wedi cael llifogydd y tu mewn i'w tai ond ar sail ymgysylltu â'r gymuned, mae'r Awdurdod o'r farn y cafodd wyth o dai i gyd lifogydd y tu mewn iddynt a bod un tŷ arall wedi cael llifogydd yn yr ardd ffrynt a'r ardd gefn, yn ôl yr hyn a ddywedodd budd-ddeiliaid.

# 4.0 Llifogydd 5-6 Ionawr 2025

**Disgrifiad o'r Llifogydd**

**4.1** Wedi iddi fod yn tywallt y glaw am gyfnod, cododd lefelau'r dŵr yn y cwrs dŵr cyffredin o'r enw nant Croes Onn, nes iddo fynd yn fwy na'r hyn y gallai'r sianel ei ddal ac ymledu i'w orlifdir naturiol.

**4.2** **19:34 05/01/25** – Yr amser yn fras yr adroddwyd am y llifogydd cyntaf yn Ffordd Dewi, i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**4.3** **19:30 05/01/25 – 03:00 06/01/25** yr amser yn fras pan oedd y llifogydd yn eu hanterth, yn ôl adroddiadau.

**4.4** Soniodd un preswylydd fod y llifogydd y tu mewn wedi cyrraedd dyfnder o tua 25mm ond gallai hynny fod wedi amrywio o dŷ i dŷ oherwydd gwahaniaeth yn lefelau'r tir. Soniwyd fod dŵr llifogydd wedi dod i mewn i dai drwy'r drysau ffrynt a chefn a hefyd drwy frics aer.

**4.5** Cyfeiriwyd y llifogydd gan y dopograffeg leol ar hyd Ffordd Dewi a llifo i'r tai cyfagos yn hytrach na dychwelyd i'r rhan agored o'r cwrs dŵr fel y dylai fod wedi digwydd yn ôl Map Perygl Llifogydd CNC. Mae'n bur debyg mai rhyw elfen na chafodd ei hystyried ym map CNC oedd achos hynny. Amlinellir lleoliad y llifogydd yn Atodiad C.

**4.6** **14:42 06/01/25** - Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru â'r digwyddiad i ben.

**4.7** Adroddwyd fod yno rywfaint o fudredd a charthion yn y llifogydd.

**Prosesau Gorlifo**

**4.8** Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd wrth ymgysylltu â'r budd-ddeiliaid, achoswyd y llifogydd mewn tai ar hyd Ffordd Dewi gan law trwm yn cynyddu'r llif yn y cwrs dŵr, sef system afonol â risg uchel o lifogydd o'r enw nant Croes Onn.

**4.9** **Prif Broses Gorlifo:** Dŵr afon a dŵr wyneb o'r cwrs dŵr cyffredin o'r enw nant Croes Onn.

**4.10** **Proses Gorlifo Eilaidd:** Dŵr budr

**4.11** Wrth ymgysylltu â budd-ddeiliaid, soniodd nifer o bobl fod astell o bren a dail/malurion coed wedi ffurfio rhwystr yn y system afonol â risg uchel o lifogydd o'r enw nant Croes Onn, ym mewndwll 'Ceuffos 2'; mae unrhyw rwystr mewn ceuffos yn cyfyngu ar lif y dŵr drwyddi a gallai hynny fod wedi cynyddu lefelau'r dŵr i fyny'r nant.

**4.12** Mae'n anhysbys sut aeth y pren i'r nant yn y lle cyntaf ac am ba hyd y bu yno, ond gallai fod wedi cronni gyda mwy o falurion a dail i greu rhwystr mwy sylweddol dros amser. Mae stormydd yn aml yn peri i laid a malurion gronni mewn ceuffosydd, wedi'u cludo i lawr gan lifogydd cyflym.

**Ymateb cychwynnol Awdurdodau Rheoli Risg i Lifogydd 5 – 6 Ionawr**

**4.13** **19:43 05/01/25** Am tua 19:43 ar 5 Ionawr, aeth y Gwasanaeth Tan ac Achub i lifogydd mewn tŷ ar Ffordd Dewi, Oakenholt, a rhoesant ddisgrifiad o'r digwyddiad i'r ystafell reoli.

**4.14** **20:30 05/01/25** Dechreuodd y Gwasanaeth Tân bwmpio dŵr i ddargyfeirio'r llifogydd o'r tai ar hyd Ffordd Dewi i ddwy o gylïau'r briffordd ac yn nes i lawr y nant i'r ffos wrth ymyl arllwysfa 'Ceuffos 1'. Yn ystod y digwyddiad, cofnododd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod yno rwystr posib yng 'Ngheuffos 2'. Hysbysodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'r Awdurdod eu bod o'r farn fod yno rwystr gan iddynt weld nad oedd cymaint o ddŵr yn dod allan o 'Geuffos 2' i lawr y nant. Nid oedd yn hysbys pwy oedd y perchennog neu berchnogion a oedd yn gyfrifol am y geuffos.

**4.5** Cyfeiriwyd y llifogydd gan y dopograffeg leol ar hyd Ffordd Dewi a llifo i'r tai cyfagos yn hytrach na dychwelyd i'r rhan agored o'r cwrs dŵr fel y dylai fod wedi digwydd yn ôl Map Perygl Llifogydd CNC. Mae'n bur debyg mai rhyw elfen na chafodd ei hystyried ym map CNC oedd achos hynny. Amlinellir lleoliad y llifogydd yn Atodiad C.

**4.16** **Bore 06/01/25** Fore 6 Ionawr, dechreuodd swyddogion Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaethau Stryd gyrraedd y safle ac fe gaeodd yr Heddlu un ochr o Ffordd Caer fel y gellid dal i bwmpio. Darparodd y Gwasanaethau Stryd sachau tywod hefyd i ddargyfeirio'r llifogydd.

**4.17** Ar 6 Ionawr, daeth contractwyr y Gwasanaethau Stryd i ddefnyddio chwistrell jet bwerus i glirio malurion a llaid o 'Geuffos 2' fel y nodir yn Ffigur 4, yn dechrau o'r cefnfur i lawr y nant a gweithio'u ffordd i fyny drwy'r geuffos. Soniwyd fod hynny wedi cynyddu'r llif drwy'r geuffos ryw fymryn a bod hynny wedi galluogi rhywfaint o'r dŵr i ddraenio o gwrs dŵr Croes Onn i fyny'r nant. Wedi draenio'r nant yn rhannol gallai contractwyr fynd ati i glirio o gwmpas cefnfur a mewndwll 'Ceuffos 2', ll tynnwyd astell bren a malurion eraill fel dail ac ati; roedd hynny'n cadarnhau sylwadau blaenorol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Pan dynnwyd y rhwystrau hynny, soniodd tystion eu bod wedi gweld dŵr yn tywallt yn sydyn drwy 'Geuffos 2'.

**4.18** Soniodd preswylwyr hefyd eu bod wedi gweld dŵr budr yn y cyffiniau ac yn eu tai. Adroddwyd fod hynny wedi digwydd o ganlyniad i'r cwrs dŵr yn gorlifo i'r system garthffosiaeth drwy gaeadau draeniau y tu allan i'r tai, gan beri rhwystr yn y system. Ymwelodd Dŵr Cymru â'r safle yn ystod y digwyddiad i archwilio ei asedau a chadarnhaodd drwy e-bost bod ei systemau'n gweithio hyd yr eithaf oherwydd llif y dŵr.

**4.19** Soniwyd fod y Gwasanaeth Tân wedi defnyddio'u pibellau dŵr i olchi llaid i lawr y nant o fewndwll 'Ceuffos 2' a'r ffos gyfagos i fyny'r nant wrth aros i'r dŵr gilio, a'u bod wedyn wedi dod â'r digwyddiad i ben yn swyddogol am 14:42 ar 6 Ionawr 2025.

**Ymateb yr Awdurdodau Rheoli Risg ar ôl y llifogydd**

**4.20** Ers y llifogydd, mae'r Awdurdodau Rheoli Risg wedi cymryd y camau canlynol:

**Tabl 4 – Camau pellach a gymerwyd**

| Awdurdod Rheoli Risg | Camau a gymerwyd |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Amherthnasol [nid yw'n brif afon] |
| Dŵr Cymru | Cadarnhaodd Dŵr Cymru eu bod wedi ymweld â'r safle ar ddiwrnod y llifogydd i archwilio eu hasedau. Ni chymerwyd unrhyw gamau ar ôl y llifogydd. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | 1. Cyfarfu â budd-ddeiliaid lleol ar 5 Chwefror.<br>2. Cynhaliwyd ymweliad â'r safle a chnociwyd ar ddrysau pobl ar 6 Chwefror, a bu galwadau ffôn ac e-byst yn sgil hynny.<br>3. Cyfarfod â Chartrefi Anwyl a swyddogion Gwasanaethau Stryd ar 5 Mawrth.<br>4. Cynhaliodd ymchwiliad A19.<br>5. Cysylltwyd â pherchnogion y glannau i lawr yr afon i ofyn iddynt dynnu llaid o rannau o'r cwrs dŵr i hybu llif drwy'r system yn gyffredinol (gweler y lluniau yn Atodiad D).<br>6. Cyfarfod ar y safle â chomander y digwyddiad ar ran y Gwasanaethau Tân ar 11 Mawrth. |
| Yr Awdurdod Priffyrdd (Cyngor Sir y Fflint) | 1. Cyfarfu â'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i drafod y digwyddiad<br>2. Adolygwyd cytundebau Adran 38 |

# 5 Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol

**5.1** Yn y tabl isod ceir manylion y cyfathrebiadau a wnaed â'r bobl berthnasol hyd adeg llunio'r adroddiad hwn. Bernir mai'r bobl berthnasol yw'r holl awdurdodau a budd-ddeiliaid sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli risg llifogydd ac yn gyfrifol am hynny, perchnogion tai y mae'r llifogydd wedi effeithio arnynt, a phawb arall a fedrai ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r ymchwiliad i'r llifogydd.

**Tabl 5 – Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol**

| Cyswllt | Cyfathrebiadau |
|---|---|
| Preswylwyr Lleol | Mynd o amgylch y gymuned yn cnocio ar ddrysau, galwadau ffôn, e-byst, rhannu holiadur. |
| Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Priffyrdd | E-bostio'n ôl ac ymlaen â Swyddogion Priffyrdd. |
| Gweithwyr Gwasanaethau Stryd | E-bostio'n ôl ac ymlaen a chwrdd â swyddogion. |
| Dŵr Cymru | E-bostio'n ôl ac ymlaen |
| Contractwyr Gwasanaethau Stryd a gyflogwyd i glirio'r geuffos | E-bostio'n ôl ac ymlaen |
| Comander y Digwyddiad ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | E-bostio'n ôl ac ymlaen, galwad ffôn, mynd am dro o amgylch y safle |
| Cartrefi Anwyl | E-bostio'n ôl ac ymlaen a chael cyfarfod. |
| Cwmni Rheoli | E-bostio'n ôl ac ymlaen |

# 6.0 Casgliadau

**6.1** Mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, wedi cynnal ymchwiliad dan Adran 19 i'r llifogydd yn Ffordd Dewi a ddigwyddodd rhwng 5 a 6 Ionawr 2025.

**6.2** Cafwyd 47.2mm o law mewn 32 yn ystod y diwrnodau hynny ac oherwydd y bu'n bwrw glaw ac eira'n drwm cyn y digwyddiad, efallai fod lefelau'r dŵr daear yn uchel a'r priddoedd yn ddirlawn o ddŵr/wedi rhewi, a bod hynny wedi cyflymu llif y dŵr ffo.

**6.3** Soniwyd fod wyth o dai wedi cael llifogydd y tu mewn ac un arall wedi cael llifogydd y tu allan yn unig, i gyd ar Ffordd Dewi. Nodwyd mai ffynhonnell y llifogydd oedd y cwrs dŵr yn gorlifo ger mewndwll un o'r ceuffosydd sy'n mynd o dan Ffordd Dewi.

**6.4** Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd wrth ymgysylltu â'r budd-ddeiliaid, achoswyd y llifogydd mewn tai ar hyd Ffordd Dewi gan law trwm yn cynyddu'r llif yn y cwrs dŵr, sef system afonol â risg uchel o lifogydd o'r enw nant Croes Onn.

**6.5** Wrth ymgysylltu â budd-ddeiliaid, soniodd nifer o bobl fod astell o bren a dail/malurion coed wedi ffurfio rhwystr yn y system afonol â risg uchel o lifogydd o'r enw nant Croes Onn, ym mewndwll 'Ceuffos 2'; mae unrhyw rwystr mewn ceuffos yn cyfyngu ar lif y dŵr drwyddi a gallai hynny fod wedi cynyddu lefelau'r dŵr i fyny'r nant.

**6.6** Mae'n anhysbys sut aeth y pren i'r nant yn y lle cyntaf ac am ba hyd y bu yno, ond gallai fod wedi cronni gyda mwy o falurion a dail i greu rhwystr mwy sylweddol dros amser. Mae stormydd yn aml yn peri i laid a malurion gronni mewn ceuffosydd, wedi'u cludo i lawr gan lifogydd cyflym.

**6.7** Perchennog glannau'r afon neu'r ased dan sylw sy'n gyfrifol am sicrhau bod y dŵr yn llifo'n rhydd ar hyd unrhyw gwrs dŵr, gan gynnwys drwy geuffosydd, heb ei rwystro, ei lygru na'i ddargyfeirio. Ceir mwy o wybodaeth am berchnogaeth glannau afonydd ar wefan CNC: https://www.naturalresources.wales/flooding/owning-a-watercourse?lang=cy

**6.8** Soniodd preswylwyr hefyd eu bod wedi gweld dŵr budr yn eu tai. Mae'n bur debyg fod hynny'n deillio o ddŵr yn mynd i mewn i'w systemau draenio drwy gaeadau a pheri ôl-lifiad.

# 7.0 Argymhellion

**7.1** Yn Nhabl 6 nodir y camau yr argymhellir eu cymryd yn sgil y llifogydd ar Ffordd Dewi, Oakenholt ar 5a 6 Ionawr 2025 a'r budd-ddeiliad yr argymhellir y dylid cymryd y camau hynny.

**Tabl 6 - Argymhellion**

| Cyf | Budd-ddeiliad | Camau a argymhellir | Cynnydd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|
| 01 | Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Canfod pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ceuffosydd 1-4 yn Ffigur 4 a hysbysu'r holl fudd-ddeiliaid fel y gellir rhoi gwybod am broblemau yn y dyfodol a'u datrys. | Ceuffos 1: Cyngor Sir y Fflint (yr Awdurdod Priffyrdd)<br>Ceuffos 2: Cartrefi Anwyl<br>Ceuffos 3: Cartrefi Anwyl<br>Ceuffos 4: Cartrefi Anwyl<br><br>I'w hysbysu'n ffurfiol pan gyhoeddir yr adroddiad |
| 02 | Perchennog/Perchnogion Glannau'r Afon | Adolygu dulliau cynnal a chadw'r systemau cwrs dŵr cyffredin ar y safle (*gan gynnwys cyrsiau dŵr agored a rhai dan geuffosydd*. ***(https://www.naturalresources.wales/flooding/owning-a-watercourse?lang=cy)*** | Parhaus |
| 03 | Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cysylltu â pherchnogion tir i lawr y nant er mwyn tynnu llaid o'r cwrs dŵr agored yn is i lawr o ble mae'r dŵr yn arllwys o 'Geuffos 1'. | Cwblhawyd ar 05.03.25<br>[Gweler y cofnod ffotograffig] |
| 04 | Cartrefi Anwyl (Perchennog Glannau'r Afon) | Dal i gydweithio ynghylch draenio'r tir a gosod systemau draenio cynaliadwy yn y dyfodol wrth ddatblygu unrhyw ystâd ac ymgysylltu'n gynnar cyn cyflwyno unrhyw geisiadau cynllunio newydd. | Parhaus |
| 05 | Cartrefi Anwyl a'r Cwmni Rheoli (Perchennog Glannau'r Afon) | Dal i adolygu'r ffiniau a'r asedau dan reolaeth, cyfathrebu'n glir â phreswylwyr a'r awdurdodau perthnasol a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â hwy lle bo'n briodol. | Parhaus |
| 06 | Yr Awdurdod Priffyrdd (Cyngor Sir y Fflint) | Adolygu cyflwr 'Ceuffos 1' yn Ffigur 4 a'i chynnal a chadw'n unol â hynny | Cwblhawyd<br>(wedi tynnu llaid o'r geuffos) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 07 | Preswylwyr | Ystyried ffurfio Grŵp Gweithredu ar Lifogydd er mwyn helpu i baratoi ar gyfer llifogydd yn y dyfodol a'u rheoli. | Amherthnasol |
| 08 | Preswylwyr | Ystyried rhoi dulliau amddiffyn ar waith mewn tai unigol (hynny yw, gorchuddion brics aer, gatiau/drysau rhag llifogydd). | https://thefloodhub.co.uk/pfr/ |
| 09 | Perchennog/Perchnogion Glannau'r Afon / y Gymuned Leol | Bod yn wyliadwrus rhag sbwriel a thipio anghyfreithlon yn y cwrs dŵr. | Amherthnasol |


# ATODIAD A

**Cynlluniau Carthffosydd Dŵr Cymru**

Golygwyd

# ATODIAD B

## Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC



# ATODIAD C

## Ardaloedd Lle Adroddwyd am Lifogydd



# ATODIAD D

## Lleoliadau'r ffotograffau




## Cofnod Ffotograffig

| | |
|---|---|
| **Llun rhif 1** |  |
| **Dyddiad: 11/03/25** | |
| **Disgrifiad:** Llun i fyny'r nant o ble mae cwrs dŵr Croes Onn yn llifo i mewn i'r datblygiad.<br><br>**Mae'r saethau'n dynodi cyfeiriad y llif**<br><br>**Ffynhonnell:** Yr awdur | |

| | |
|---|---|
| **Llun rhif 2** |  |
| **Dyddiad: 11/03/2025** | |
| **Disgrifiad:** Llun i fyny'r nant o gwrs dŵr Croes Onn gyferbyn â'r cae chwarae.<br><br>**Ffynhonnell:** Yr awdur | |

| | |
|---|---|
| **Llun rhif 3** |  |
| **Dyddiad: 11/03/2025** | |
| **Disgrifiad:** Llun o'r rhagnant sy'n ymuno â phrif nant Croes Onn ar ôl llifo drwy 'Geuffos 4'.<br><br>**Ffynhonnell:** Yr awdur | |

<table>
<tr><td>Llun rhif 4</td><td rowspan="3"></td></tr>
<tr><td>Dyddiad:<br>11/03/2025</td></tr>
<tr><td>Disgrifiad:<br>Llun i lawr y nant o gwrs dŵr Croes Onn wrth iddo lifo at fewndwll ‘Ceuffos 3’.<br><br>Ffynhonnell: Yr awdur</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Llun rhif 5</td><td rowspan="3"></td></tr>
<tr><td>Dyddiad:<br>11/03/2025</td></tr>
<tr><td>Disgrifiad:<br>Mewndwll a chefnfur ‘Ceuffos 3’.<br><br>Ffynhonnell:<br>Yr awdur</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Llun rhif 6** |  |
| **Dyddiad: 11/03/2025** | |
| **Disgrifiad:** Arllwysfa a chefnfur 'Ceuffos 3'.<br><br>**Ffynhonnell:** Yr awdur | |

| | |
|---|---|
| Llun rhif7 |  |
| **Dyddiad: 11/03/2025** | |
| **Disgrifiad:**Mewndwll a chefnfur 'Ceuffos 2'.<br><br>**Ffynhonnell:** Yr awdur | |


| Llun rhif 8 |  |
|---|---|
| **Dyddiad: 11/03/2025** | |
| **Disgrifiad:** Arllwysfa a chefnfur 'Ceuffos 2'.<br><br>**Ffynhonnell:** Yr awdur | |

| Llun rhif 9 |  |
|---|---|
| **Dyddiad: 11/03/2025** | |
| **Disgrifiad:** Llun i lawr y nant o'r rhan agored o'r cwrs dŵr rhwng 'Ceuffos 2' a 'Cheuffos 1'.<br><br>**Ffynhonnell:** Yr awdur | |

| | |
|---|---|
| **Llun rhif 10** |  |
| **Dyddiad: 11/03/2025** | |
| **Disgrifiad:** Mewndwll a chefnfur 'Ceuffos 1' sy'n llifo o dan yr A548.<br><br>**Ffynhonnell:** Yr awdur | |

| | |
|---|---|
| **Llun rhif 11** |  |
| **Dyddiad: 11/03/2025** | |
| **Disgrifiad:** Llun i lawr y nant o arllwysfa 'Ceuffos 1' lle tynnwyd llaid o'r cwrs dŵr.<br><br>**Ffynhonnell:** Yr awdur | |

<table>
<tr><td>Llun rhif 12</td><td rowspan="3"></td></tr>
<tr><td>Dyddiad:06/01/2025</td></tr>
<tr><td>Disgrifiad:<br>Mewndwll a chefnfur ‘Ceuffos 2’ ar ôl pwmpio, ond cyn cael gwared â’r rhwystr.<br><br>Ffynhonnell:<br>Gwasanaethau Stryd</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Llun rhif 13</td><td rowspan="3"></td></tr>
<tr><td>Dyddiad:06/01/2025</td></tr>
<tr><td>Disgrifiad:<br>Llun i fyny’r nant wrth ymyl arllwysfa ‘Ceuffos 3’ sy’n dangos lefel y dŵr yn y nant agored cyn cael gwared â’r rhwystr.<br><br>Ffynhonnell:<br>Gwasanaethau Stryd</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Llun rhif 14** |  |
| **Dyddiad: 06/01/2025** | |
| **Disgrifiad:** Mewndwll a chefnfur 'Ceuffos 2' ychydig funudau wedi cael gwared â'r rhwystr.<br><br>**Ffynhonnell:** Gwasanaethau Stryd | |

| | |
|---|---|
| **Llun rhif 15** |  |
| **Dyddiad: 06/01/2025** | |
| **Disgrifiad:** Rhan agored o'r cwrs dŵr ychydig funudau wedi cael gwared â'r rhwystr ym mewndwll y geuffos i lawr y nant.<br><br>**Ffynhonnell:** Gwasanaethau Stryd | |